O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 3034 (Cy. 309)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Milton i Slade Cross, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Rhagfyr 2012* |
| *Yn dod i rym* | *10 Rhagfyr 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Rhagfyr 2012, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Milton i Slade Cross, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 10 Rhagfyr 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A477

rhwng Milton a Slade Cross yn Sir Benfro a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**Atal**

**6.** Mae darpariaethau Gorchymyn yr A477 (Pentref Milton, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2002(3), i’r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, wedi eu hatal drwy hyn ar yr adegau y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig y 3 Rhagfyr 2012

*RICHARD MORGAN*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2002/2101 (Cy.211)

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1
## Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 450 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Paskeston Road hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Mylett's Hill.

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Paskeston Road hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Mylett's Hill.